# Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru

## Rhagair

Paratowyd y cyfrifon hyn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2006 gan Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru o dan adran 98(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (fel a newidiwyd gan adran 24(2), atodiad 2 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990) mewn ffurf sydd yn unol â chyfarwyddyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

Prif waith yr Ymddiriedolaeth yw darparu gofal iechyd o ran gwasanaethau llym a chymuned, gan gynnwys gwasanaethau iechyd meddwl ac anabledd dysgu.

## INCWM A GWARIANT AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2006

| | Nodyn | £000 | 2004-05 £000 |
|---|---|---|---|
| **Incwm o weithgareddau** | 3 | **196,089** | 185,596 |
| **Incwm gweithredu arall** | 4 | **9,874** | 11,437 |
| **Cyfanswm yr incwm** | | **205,963** | 197,033 |
| **Treuliau gweithredu** | 5 | **(202,265)** | (193,554) |
| **Arian gweithredu sy'n weddill/ (diffyg)** | | **3,698** | 3,479 |
| Costau aildrefnu/ailstrwythuro sylfaenol | | **0** | 0 |
| Elw /(colled) ar waredu asedau sefydlog | 8 | **(1)** | (7) |
| **Arian sy'n weddill /(diffyg) cyn llog** | | **3,697** | 3,472 |
| Llog sy'n dderbyniadwy | | **750** | 726 |
| Llog sy'n daladwy | 9 | **0** | 0 |
| Costau cyllid eraill | 16 | **0** | 0 |
| **Arian sy'n weddill /(diffyg) ar gyfer y flwyddyn ariannol** | | **4,447** | 4,198 |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus - difidendau sy'n daladwy | | **(4,366)** | (4,194) |
| **Arian sy'n weddill /(diffyg) a gedwir ar gyfer y flwyddyn** | 17 | **81** | 4 |

## DATGANIAD O GYFANSWM YR ENILLION A'R COLLEDION CYDNABYDDEDIG AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2006

| | Nodyn | £000 | 2004-05 £000 |
|---|---|---|---|
| Arian sy'n weddill /(diffyg) ar gyfer y flwyddyn ariannol cyn taliadau difidend | | **4,447** | 4,198 |
| Colledion amhariad ar asedau sefydlog | 17 | **0** | 0 |
| Arian sy'n weddill/(diffyg) na wireddwyd wrth ailbrisio/mynegrifo asedau sefydlog | 17 | **250** | 9,262 |
| Cynnydd yng nghronfeydd wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd a chronfeydd grantiau'r llywodraeth o ganlyniad i dderbyn asedau a gafwyd yn rhodd a grantiau'r llywodraeth | 17 | **1,161** | 251 |
| Gostyngiad yng nghronfeydd wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd a grantiau'r llywodraeth o ganlyniad i ddibrisio, amhariad a gwaredu asedau a gafwyd yn rhodd a grantiau'r llywodraeth. | 17 | **(354)** | (533) |
| Ychwanegiadau / (gostyngiadau) mewn "cronfeydd wrth gefn eraill" | 17 | **0** | 0 |
| Enillion a cholledion actiwaraidd cynllun budd diffiniedig | | **0** | 0 |
| Cyfanswm yr enillion a'r colledion cydnabyddedig ar gyfer y flwyddyn ariannol | | **5,504** | 13,178 |
| Addasiad y cyfnod blaenorol | 17 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm yr enillion a'r colledion a gydnabuwyd yn y flwyddyn ariannol** | | **5,504** | 13,178 |

## MANTOLEN AR 31 MAWRTH 2006

| | Nodyn | £000 | £000 | 31 March 2005 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau sefydlog** | | | | |
| Asedau aniriaethol | 10 | **0** | | 0 |
| Asedau diriaethol | 11 | **134,621** | | 133,034 |
| | | | **134,621** | 133,034 |
| **Asedau cyfredol** | | | | |
| Stociau a gwaith mewn grym | 12 | **2,289** | | 2,191 |
| Dyledwyr | 13 | **18,926** | | 20,028 |
| Buddsoddiadau | 14 | **0** | | 0 |
| Arian yn y banc ac arian wrth gefn | 18.3 | **1,162** | | 1,657 |
| **Cyfanswm Asedau cyfredol** | | | **22,377** | 23,876 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 15 | | **(9,067)** | (13,122) |
| **Asedau cyfredol net/ (Ymrwymiadau)** | | | **13,310** | 10,754 |
| **Cyfanswm yr asedau llai ymrwymiadau cyfredol** | | | **147,931** | 143,788 |
| Credydwyr: symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 15 | | **0** | 0 |
| Darpariaethau ar gyfer ymrwymiadau a chostau | 16 | | **(15,867)** | (13,646) |
| **Cyfanswm yr asedau a ddefnyddiwyd** | | | **132,064** | 130,142 |
| **Ariannwyd gan:** | | | | |
| **Ecwiti trethdalwyr** | | | | |
| Cyfalaf difidend cyhoeddus | 23.2 | | **82,794** | 82,010 |
| Cronfa ailbrisio wrth gefn | 17 | | **43,764** | 43,666 |
| Cronfa wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd | 17 | | **5,651** | 4,692 |
| Cronfa wrth gefn grantiau'r llywodraeth | 17 | | **0** | 0 |
| Cronfeydd wrth gefn eraill | 17 | | **0** | 0 |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn | 17 | | **(145)** | (226) |
| **Cyfanswm ecwiti trethdalwyr** | | | **132,064** | 130,142 |

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd ar ..............................…….

Cadeirydd ....................................................................................

Prif Weithredwr ............................................................................

Mabwysiadwyd gan y Bwrdd ar …...........................…

## DATGANIAD LLIF ARIAN AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2006

| | Nodyn | £000 | £000 | 2004-05<br>£000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithgareddau gweithredu** | | | | |
| Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu | 18.1 | | **10,300** | 9,141 |
| **Enillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **750** | | 726 |
| Llog a dalwyd | | **0** | | 0 |
| Elfen llog y prydlesau cyllid | | **0** | | 0 |
| **Mewnlif (all-lif) arian net o'r enillion ar fuddsoddiadau a gwasanaethu cyllid** | | | **750** | 726 |
| **Gwariant cyfalaf** | | | | |
| Taliadau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | | **(8,581)** | | (6,212) |
| Derbyniadau o werthu asedau sefydlog diriaethol | | **2** | | 0 |
| Taliadau i gaffael/ derbyniadau o werthu asedau aniriaethol | | **0** | | 0 |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o wariant cyfalaf** | | | **(8,579)** | (6,212) |
| Difidendau cyfalaf difidend cyhoeddus a dalwyd | | | **(4,412)** | (4,212) |
| **Rheoli adnoddau hylifol** | | | | |
| Prynu buddsoddiadau ased cyfredol | | **(178,000)** | | (169,000) |
| Gwerthu buddsoddiadau | | **178,000** | | 169,000 |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o reoli adnoddau hylifol** | | | **0** | 0 |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net cyn ariannu** | | | **(1,941)** | (557) |
| **Ariannu** | | | | |
| Cyfalaf difdend cyhoeddus a dderbyniwyd | | **784** | | 356 |
| Cyfalaf difidend cyhoeddus a ad-dalwyd:(nas cronnwyd yn flaenorol) | | **0** | | (42) |
| Cyfalaf difidend cyhoeddus a ad-dalwyd:(a gronnwyd mewn cyfnod blaenoro | | **0** | | 0 |
| Benthyciadau'r Llywodraeth a dderbyniwyd: tymor byr | | **0** | | 0 |
| Benthyciadau'r Llywodraeth a ad-dalwyd: tymor byr | | **0** | | 0 |
| Blaendaliadau benthyciad/broceriaeth a dderbyniwyd | | **0** | | 0 |
| Blaendaliadau benthyciad/broceriaeth a ad-dalwyd | | **0** | | 0 |
| Derbyniadau cyfalaf eraill | | **1,161** | | 251 |
| Elfen gyfalaf y prydlesau cyllid | | **0** | | 0 |
| **Mewnlif / (all-lif) arian net o ariannu** | | | **1,945** | 565 |
| **Cynnydd/ (gostyngiad) mewn arian** | 18.2 | | **4** | 8 |

## Nodiadau i'r cyfrifon

### 1. Polisiau cyfrifo a gwybodaeth arall

Yn ôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru bydd datganiadau ariannol ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru yn cwrdd â gofynion cyfrifo llawlyfr cyfrifon ymddiriedolaethau'r GIG y cytunir arnynt gyda Thrysorlys ei Mawrhydi. Mae polisiau cyfrifo'r llawlyfr yn dilyn arfer cyfrifo cyffredin y DU ar gyfer cwmniau (UK GAAP) a Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau trysorlys ei Mawrhydi i'r graddau ei fod yn ystyrlon ac yn briodol i'r GIG, yn unol â phenderfyniad y Trysorlys ei Mawrhydi, sy'n cael ei gynghori gan y Bwrdd Ymgynghorol Hysbysu Ariannol. Defnyddiwyd y polisiau cyfrifo'n gyson wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon. Gosodir polisiau cyfrifo safonol yn y llawlyfr cyfrifon a'r Llawlyfr Cyfrifo Cyfalaf Drafft. Os gwneir newid i'r polisi cyfrifo caiff ei ddatgelu a'i gyfrifo yn unol ag FRS18 ac FRS3.

### 1.1 Confensiwn cyfrifo

Paratowyd y cyfrif hwn o dan y confensiwn cost hanesyddol, ac addaswyd i gyfrif am ailbrisio asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at eu costau cyfredol. Nid oes rhaid i Ymddiriedolaethau GIG ddarparu cysoniad rhwng gweddillion a diffygion cost cyfredol a gweddillion a diffygion cost hanesyddol.

### 1.2 Caffaeliadau a gweithrediadau wedi eu terfynu

Ystyrir gweithgareddau fel rhai wedi eu 'caffael' ond os ydynt wedi eu caffael o'r tu allan i'r sector gyhoeddus. Ystyrir gweithgareddau fel rhai 'wedi eu terfynu' ond os ydynt yn dod i ben yn gyfan gwbl. N ystyrir hwy fel rhai 'wedi eu terfynu' os ydynt yn trosglwyddo y tu allan i'r sector gyhoeddus.

### 1.3 Cydnabod Incwm

Cyfrifir incwm drwy ddefnyddio'r confensiwn croniadau. Daw prif ffynhonnell incwm yr ymddiriedolaeth oddi wrth gomisiynwyr gwasanaethau iechyd a ddarperir o dan gytundebau Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol. Cydnabyddir incwm ar gyfer gofal cleifion a ddarperir ar gyfer cyrff GIG eraill yn unol a thelerau ac amodau'r contractau GIG. Lle derbynnir incwm am weithgaredd penodol sydd i'w ddarparu yn y flwyddyn ariannol ganlynol, caiff yr incwm hwnnw ei ohirio.

### 1.4 Asedau sefydlog aniriaethol

Caiff yr asedau aniriaethol eu cyfalafu os gellir eu defnyddio yng ngweithgareddau'r Ymddiriedolaeth am fwy nag un flwyddyn; y gellir eu prisio a bod ganddynt gost o £5,000 o leiaf.

Mae asedau sefydlog aniriaethol sy'n cael eu dal i'w defnyddio'n weithredol yn cael eu prisio ar gost hanesyddol ac yn cael eu dibrisio dros fywyd amcangyfrifedig yr ased gan ddefnyddio'r dull linell syth, ac eithrio Ymchwil a Datblygiad wedi ei gyfalafu sy'n cael ei ailbrisio drwy ddefnyddio ffigur mynegai priodol. Mae gwerth dwyn ymlaen asedau aniriaethol yn cael ei adolygu ar gyfer amhariad ar ddiwedd y flwyddyn lawn gyntaf wedi eu sicrhau, ac mewn cyfnodau eraill os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dangos efallai na fydd modd adennill y gwerth dwyn ymlaen.

Mae trwyddedau meddalwedd cyfrifiaduron a brynwyd yn cael eu cyfalafu fel asedau sefydlog aniriaethol lle cafwyd gwariant o £5,000 o leiaf. Maent yn cael eu dileu dros dymor byrraf y drwydded a'u bywydau economaidd defnyddiol.

### 1.5 Asedau sefydlog diriaethol

**i. Cyfalafu**

Caiff yr holl asedau diriaethol eu cyfalafu os gellir eu defnyddio am gyfnod sy'n hwy na blwyddyn a:
- bod ganddynt gost unigol o £5,000 o leiaf; neu
- fod ganddynt gost gyfunol o £5,000 o leiaf, lle bo'r asedau'n rhyngddibynnol o ran swyddogaeth, roedd dyddiadau eu prynu'n cyd-daro fwy neu lai a rhagdybir y bydd y dyddiadau gwaredu'n cyd-daro; ac maen o dan un rheolaeth reolaethol; neu
- eu bod yn ffurfio rhan o rwydwaith TG sydd â chost gyfunol o fwy na £5,000 ac yn unigol, gost o fwy na £250, neu
- eu bod yn rhan o gost gychwynnol sefydlu a chyflenwi adeilad, ward neu uned newydd, beth bynnag yw eu cost unigol neu gyfunol.

**ii. Prisio**

Caiff asedau sefydlog diriaethol eu datgan o ran cost isaf eu hailosod a chost adferadwy. Wrth eu cydnabod gyntaf mesurir hwy ar gost (ar gyfer asedau a brydleswyd, gwerth teg) gan gynnwys unrhyw gostau fel costau gosod y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'w gwneud iddynt weithio. Maent yn cael eu hailddatgan i'w gwerth cyfredol bob blwyddyn. Mae gwerth dwyn ymlaen asedau sefydlog diriaethol yn cael ei adolygu am amhariad mewn cyfnodau os yw digwyddiadau neu newidiadau mewn amgylchiadau yn dynodi na fydd modd adfer y gwerth dwyn ymlaen.

Caiff tir ac adeiladau eu hailddatgan i werth cyfredol drwy ddefnyddio prisiadau proffesiynol yn unol â FRS15 bob pum mlynedd ac yn y blynyddoedd canol drwy ddefnyddio mynegeion. Mae'r mynegai adeiladau wedi ei seilio ar 'Fynegai Prisiau Tendr Cyfan' a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Gwybodaeth Costau Adeiladu. Caiff y mynegai tir ei seilio ar brisiadau tir adeiladau preswyl a hysbysir yn Adroddiad y Farchnad Eiddo a gyhoeddir gan y Swyddfa Brisio.

Cynhelir prisiadau gan Briswyr Dosbarth Cyllid y Wlad bob 5 mlynedd. Cynhelir prisiadau yn unol â Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig i'r graddau y bo'r amodau'n gyson â gofynion y Cynulliad a Thrysorlys ei Mawrhydi sydd wedi eu cytuno. Cynhaliwyd prisiadau diwethaf asedau ar 30 Medi 2002 ac adlewyrchwyd hwy yng ngwerthoedd mantolen 2002-03.

Cynhelir prisiadau ar gyfer eiddo gweithredol arbenigol yn bennaf ar sail cost eu hailosod a hynny ar ôl dibrisio a chynhelir prisiadau ar gyfer eiddo gweithredol anarbenigol ar sail gwerth eu defnydd cyfredol. Caiff gwerth tir at ddibenion defnydd cyfredol ei asesu ar sail gwerth ei ddefnydd cyfredol. Ar gyfer eiddo anweithredol, gan gynnwys tir sy'n weddill, cynhelir prisiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad agored.

Mae pob addasiad o ganlyniad i fynegeio ac ailbrisiadau pum mlynedd yn cael eu cymryd i'r Gronfa Ailbrisio Wrth Gefn. Mae pob amhariad sydd o ganlyniad i newid prisiau yn cael eu codi ar Ddatganiad Cyfanswm Enillion a Cholledion Cydnabyddedig. Mae gostyngiadau mewn gwerth pan fydd asedau sydd newydd eu hadeiladu'n cael eu defnyddio hefyd yn cael eu codi arno. Mae'r gostyngiadau yma mewn gwerth o ganlyniad i fabwysiadu amodau delfrydol fel sail prisiadau cost ailosod wedi eu dibrisio.

Dim ond ar gyfer asedau gweithredol sydd i'w cau'n fuan a'u gwaredu wedi hynny y rhoddwyd ffigyrau Gwerth Marchnad Agored gwahanol ychwanegol.

Caiff asedau yn ystod y cyfnod adeiladu eu prisio ar y gost gyfredol gan ddefnyddio mynegeion fel ar gyfer tir ac adeiladau, fel yr uchod. Mae'r asedau hyn yn cynnwys unrhyw dir neu adeiladau sy'n bodoli o dan reolaeth contractwr.

Caiff llogau gweddilliol mewn eiddo Menter Cyllid Preifat nad yw ar y fantolen eu cynnwys yn asedau sefydlog diriaethol fel 'asedau sy'n cael eu hadeiladu a thaliadau ar gyfrif' lle bo'r contract PFI yn nodi'r swm, neu ddim, pan fydd yr asedau'n cael eu trosglwyddo i'r Ymddiriedolaeth ar ddiwedd y contract. Caiff y llog gweddilliol ei adeiladu, ar sail actiwaraidd, yn ystod oes y contract drwy gyfalafu rhan o'r tâl unedol fel bo, ar ddiwedd y contract, gwerth mantolen y gwerth gweddilliol a'r swm penodol yn gyfartal i werth teg disgwyliedig yr ased gweddilliol ar ddiwedd y contract. Y Prisiwr Dosbarth sy'n penderfynu ar werth teg tybiedig yr ased wrth ddychwelyd. Dylai'r Prisiwr Dosbarth roi amcangyfrif o werth teg disgwyliedig yr asedau ar yr un sail ag y mae'r Prisiwr Dosbarth yn prisio ystâd Ymddiriedolaethau'r GIG.

Caiff offer gweithredol ei brisio ar gostau cyfredol net ailosod drwy godiad blynyddol gan y newid yng ngwerth datchwyddwr y GDP. Caiff offer sydd dros ben ei brisio am swm adferadwy net.

**iii. Dibrisiant**

Caiff asedau sefydlog diriaethol eu dibrisio ar gyfraddau a gyfrifwyd eu gostwng i werth gweddilliol amcangyfrifedig ar ddull linell syth dros eu bywydau defnyddiol tybiedig. Ni chaiff tir rhydd-ddaliol, asedau yn ystod y cyfnod adeliadu ac asedau dros ben eu dibrisio.

Ni chaiff asedau sy'n cael eu hadeiladu a llogau gweddilliol asedau contract PFI nad ydynt ar y fantolen eu dibrisio nes y caiff yr ased ei ddefnyddio neu ei ddychwelyd i'r Ymddiriedolaeth, yn y drefn honno.

Caiff adeiladau, gosodiadau a ffitiadau eu dibrisio ar eu gwerth cyfredol dros weddill bywyd tybiedig yr asedau fel y cynghora'r Prisiwr Dosbarth. Caiff eiddo prydlesol ei ddibrisio dros gyfnod y brydles sylfaenol. Caiff offer ei ddibrisio ar y gost gyfredol dros fywyd tybiedig yr ased.

Caiff colledion amhariad o ganlyniad i newidiadau tymor byr mewn pris sy'n cael eu hystyried yn adferadwy yn y tymor hir eu dwyn yn llawn i'r gronfa ailbrisio wrth gefn. Mae'r rhain yn cynnwys amhariadau o ganlyniad ailbrisio asedau sefydlog o'u cost i'w gwerth mewn defnydd cyfredol pan fyddant yn weithredol. Gallai hyn arwain at gronfa ailbrisio wrth gefn negyddol mewn rhai amgylchiadau.

Lle bo bywyd economaidd defnyddiol ased yn llai na'r hyn a dybiwyd i ddechrau oherwydd ailbrisio ased ar werth, caiff dibrisiant ei godi er mwyn dod â gwerth yr ased i'w werth adeg gwerthu. Pan godir tâl amhariad ased sefydlog ar y Cyfrif Incwm a Gwariant, o dan Safon Adrodd Ariannol 11, telir incwm gwrthbwyso gan y Cynulliad drwy brif gomisiynydd yr Ymddiriedolaeth, i wrthbwyso'r gost. Defnyddir yr incwm i dalu Cyfalaf Difidend Cyhoeddus yn ôl.

**1.6 Arian, Banc a Gorddrafftiau**

Cofnodir arian, banc a gorddrafftiau ar werthoedd cyfredol a'r unig adeg y cydbwysir hwy yw lle bo cytundeb ffurfiol gyda'r banc. Ailddatganwyd y balansau agoriadol ar gyfer arian a chredudwyr fel ar 31 Mawrth 2005 i adlewyrchu'r driniaeth hon. Cofnodir llog a geir ar gyfrifon banc a llog a godir ar orddrafftiau fel, yn ol eu trefn, 'Llog derbyniadwy' a 'Llog taladwy' yn y cyfnodau y maent yn ymwneud a hwy. Cofnodir codiannau banc fel gwariant gweithredol yn y cyfnodau y maent yn ymwneud a hwy.

**1.7 Asedau sefydlog a gafwyd yn rhodd**

Caiff asedau sefydlog a gafwyd yn rhodd eu cyfalafu am eu gwerth cyfredol wrth eu derbyn a chaiff y gwerth yma ei gredydu i gronfa wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd. Caiff asedau a gafwyd yn rhodd eu prisio a'u dibrisio fel a ddisgrifiwyd uchod ar gyfer asedau a brynwyd. Wrth ailbrisio caiff enillion a cholledion hefyd eu cymryd i'r gronfa wrth gefn ar gyfer asedau a gafwyd yn rhodd a phob blwyddyn, caiff swm sy'n gyfwerth â chost dibrisio ei ryddhau o'r gronfa wrth gefn i'r Cyfrif Incwm a Gwariant. Yn yr un modd, caiff swm sy'n gyfwerth ag unrhyw amhariad ar asedau a godwyd ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ei drosglwyddo o'r gronfa wrth gefn ar gyfer asedau a roddwyd. Wrth werthu asedau a roddwyd, mae gwerth arian y gwerthu yn cael ei drosglwyddo o'r Gronfa wrth Gefn ar gyfer Asedau a Gafwyd yn Rhodd i'r Gronfa Incwm a Gwariant Wrth Gefn.

**1.8 Grantiau'r Llywodraeth**

Mae grantiau'r Llywodraeth yn grantiau oddi wrth gyrff y llywodraeth ar wahân i arian oddi wrth gyrff y GIG neu arian a roddwyd gan Bleidlais Seneddol. Caiff cronfa gadw grantiau'r llywodraeth ei chynnal ar lefel sy'n gyfartal i werth llyfr net yr asedau a ariannwyd ganddi.

**1.9 Prydlesi**

Lle i raddau helaeth y bydd yr ymddiriedolaeth yn gyfrifol am risgiau a gwobrwyon perchenogaeth ased ar brydles, caiff yr ased ei gofnodi fel ased sefydlog diriaethol a chofnodir dyled i'r prydleswr o'r isafswm o daliadau prydles a ostyngir gan y gyfradd llog sy'n oblygedig yn y brydles. Caiff elfen llog y taliad ariannol ei godi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant dros gyfnod y brydles ar raddfa gyson o ran y gweddill sydd ar ôl. Caiff prydlesi eraill eu hystyried fel prydlesi gweithredol a chaiff y rhenti eu codi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant ar sail linol dros amodau'r brydles.

**1.10 Menter Cyllid Preifat**

Mae'r GIG yn dilyn 'Nodyn Technegol 1 (Diwygiedig) Trysorlys EM Sut i gyfrifo trafodion PFI' sy'n darparu canllaw ymarferol ar gyfer cymhwyso addasiad FRS5. Mae cynlluniau PFI yn gynlluniau y mae'r gweithredydd PFI yn derbyn tâl blynyddol gan yr Ymddiriedolaeth am y gwasanaethau a ddarperir gan y gweithredydd PFI o ran gweithredu eiddo ac am fynediad i'r eiddo ei hun.

Pan fo gweithredydd y PFI yn gyfrifol am risgiau a gwobrwyon perchenogaeth, cofnodir y taliadau PFI fel cost gweithredu. Pan fo'r ymddiriedolaeth wedi cyfrannu asedau, caiff taliad o flaen llaw am eu gwerth teg ei gydnabod a'i ddileu dros fywyd y contract PFI drwy godi ar y Cyfrif Incwm a Gwariant. Pan fo eiddo'n dychwelyd i'r ymddiriedolaeth, ar ddiwedd y contract PFI, mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth teg disgwyliedig y gweddill wrth ddychwelyd ac unrhyw daliad a gytunwyd wrth ddychwelyd yn cael ei adeiladu dros fywyd y contract drwy gyfalafu rhan o'r codiad unedol bob blwyddyn, fel ased sefydlog diriaethol.

Pan fo'r ymddiriedolaeth yn gyfrifol am risgiau a gwobrwyon perchenogaeth eiddo'r PFI, caiff ei gydnabod fel ased sefydlog ynghyd â'r cyfrifoldeb i dalu amdano sy'n cael ei gyfrifo fel prydles cyllid. Caiff taliadau contract eu rhannu rhwng tâl prydles cyllid priodoledig a thâl gwasanaeth.

**1.11 Stociau a gwaith ar y gweill**

Caiff stociau a gwaith ar y gweill eu prisio ar eu gwerth cost a'u gwerth sylweddoladwy net isaf. Ystyrir hyn i fod yn amcan rhesymol o agos i'r gost gyfredol o ganlyniad i drosiant uchel stociau. Mae gwaith ar y gweill yn cynnwys nwyddau yng nghyfnodau cyfryngol cynhyrchu. Ni chaiff contractau a gwblhawyd yn rhannol ar gyfer gwasanaethau cleifion eu hystyried fel gwaith ar y gweill.

**1.12 Ymchwil a datblygiad**

Ni chaiff gwariant ar ymchwil ei gyfalafu. Caiff gwariant ar ddatblygu ei gyfalafu os yw'n cwrdd â'r meini prawf canlynol:

* mae project wedi'i ddiffinio'n glir;
* gellir dynodi'r gwariant cysylltiedig ar wahân;
* cafodd canlyniad y project ei asesu â sicrwydd rhesymol o ran:
* ei ymarferoldeb technegol
* y bydd yn arwain at gynnyrch neu wasanaeth fydd yn y pen draw yn cael ei ddefnyddio;
* bod adnoddau digonol yn bodoli, neu y disgwylir yn rhesymol iddynt fod ar gael, er mwyn cwblhau'r project a darparu unrhyw gynnydd o ganlyniad mewn cyfalaf gweithredol.

Caiff gwariant a ohiriwyd felly ei gyfyngu i werth disgwyliedig y buddiannau yn y dyfodol a chaiff ei ddileu drwy'r cyfrif incwm a gwariant yn systematig dros y cyfnod y disgwylir iddo elwa o'r project. Caiff ei ailbrisio ar sail cost gyfredol. Caiff y tâl dileu ei gyfrif ar yr un sail a ddefnyddir ar gyfer dibrisio h.y. yn chwarterol. Caiff gwariant nad yw'n cwrdd â'r meini prawf ar gyfer cyfalafu ei drin fel cost gweithredol yn y flwyddyn y caiff ei wario. Nid yw'r ymddiriedolaeth yn gallu datgelu cyfanswm gwariant ymchwil a datblygiad a godir ar y cyfrif incwm a gwariant (yn ôl gofynion SSAP 13) oherwydd ni ellir gwahanu rhywfaint o weithgaredd ymchwil a datblygiad oddi wrth weithgaredd gofal cleifion.

Caiff asedau sefydlog a sicrhawyd i'w defnyddio ar gyfer ymchwil a datblygiad eu dileu dros oes y project cysylltiedig.

**1.13 Darpariaethau**

Mae'r ymddiriedolaeth yn darparu ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol sy'n ansicr o ran amseru neu swm ar ddyddiad y fantolen ar sail yr amcangyfrif gorau o'r swm angenrheidiol i gwrdd â'r rhwymedigaeth. Yn unol a FRS12 ni chydnabyddir darpariaethau ond pan fo trosglwyddo budd economaidd yn debygol, ac y gellir amcangyfrif y swm yn rhesymol. Pan fo effaith gwerth arian dros amser yn sylweddol, mae'r llifau arian amcangyfrifedig a addaswyd ar gyfer risg yn cael eu gostwng gan ddefnyddio cyfradd gostyngiad y Trysorlys o 2.2% mewn gwir werth. Effaith y newid yw cynyddu gwerth dwyn ymlaen y ddarpariaeth a dangosir hyn yn y Cyfrif Incwm a Gwariant ac yn Nodyn 16.

**1.14 Rhwymedigaethau Annisgwyl**

Cydnabyddir rhwymedigaethau annisgwyl lle bo gan yr Ymddiriedolaeth GIG

- Rwymedigaeth bosibl yn codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol y cadarnheir eu bodolaeth gan ddigwyddiadau'n digwydd yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Ymddiriedolaeth;
- Rhwymedigaeth gyfredol sy'n codi o ddigwyddiadau yn y gorffennol nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddo buddiannau economaidd i setlo'r rhwymedigaeth; neu
- Rwymedigaeth gyfredol lle nad oes modd mesur swm y rhwymedigaeth yn ddigon cywir.

Ni ddatgelir rhwymedigaethau annisgwyl lle ystyrir nad oes unrhyw debygolrwydd y byddant yn datblygu'n rhwymedigaethau.

Datgelir asedau annisgwyl lle bo ased posibl yn bodoli o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y gorffennol y cadarnheir eu bodolaeth ond gan un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn digwydd yn y dyfodol nad ydynt yn gyfan gwbl o fewn rheolaeth yr Ymddiriedolaeth GIG. Yr unig adeg y datgelir asedau annisgwyl yw lle ystyrir all-lif budd economaidd yn debygol yn y dyfodol.

**1.15 Colledion a thaliadau arbennig**

Mae colledion a thaliadau arbennig yn eitemau na fyddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi eu disgwyl pan gytunodd ar gronfeydd i'r gwasanaeth iechyd neu pan basiodd ddeddfwriaeth. Wrth eu natur maent yn eitemau na ddylent yn ddelfrydol godi. Maent felly yn amodol ar weithdrefnau rheoli arbennig o gymharu a chyffredinolrwydd taliadau. Rhennir hwy yn gategoriau gwahanol, sy'n llywodraethu'r modd yr ymdrinir a phob achos unigol.

Codir am golledion a thaliadau arbennig ar y cyfrif incwm a gwariant ar sail cronnol. Fodd bynnag, paratowyd nodyn 22 yn uniongyrchol o'r gofrestr colledion a iawndaliadau sy'n cael ei chymharu a chyffredinolrwydd taliadau, Rhennir hwy yn gategoriau gwahanol, sy'n llywodraethu'r modd yr ymdrinir a phob achos unigol.

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gyfrifol am yr holl golledion a thaliadau arbennig gros (gan gynnwys cymorth gan Gronfa Risg Cymru). Mae'r Ymddiriedolaeth yn cronni neu'n darparu ar gyfer yr amcangyfrif gorau o'i thaliadau allan yn y dyfodol am rwymedigaethau sicr neu debygol ac yn datgelu pob taliad posibl arall fel rhwymedigaethau annisgwyl, oni bai fod y tebygolrwydd y bydd y rhwymedigaethau'n daladwy yn wan.

Pan fydd y tebygolrwydd o gael setliad ar gyfer cais unigol dros 50%, darperir ar gyfer yr holl geisiadau am golledion a thaliadau arbennig. Pan ellir gwneud amcangyfrifon dibynadwy, dylid darparu ar gyfer achosion o esgeulustod clinigol na dderbyniwyd cais yn eu herbyn hyd yma, yn yr un modd. Caiff ad-daliadau disgwyliedig gan Gronfa Risg Cymru eu cynnwys yn y dyledwyr. Ar gyfer y ceisiadau hynny lle bo'r tebygolrwydd o gael setliad yn is na 50%, dylid datguddio'r rhwymedigaeth fel rhwymedigaeth annisgwyl.

**1.16 Costau pensiwn**

Mae darpariaethau Cynllun Pensiwn y GIG yn darparu ar gyfer gweithwyr cyfredol a blaenorol. Mae'r cynllun yn gynllun buddiant diffiniedig heb ei ariannu, buddiant diffiniedig sy'n darparu ar gyfer gweithwyr y GIG, meddygon teulu a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol. O ganlyniad nid yw'n bosibl i'r ymddiriedolaeth ddynodi ei siâr o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun. Felly, caiff y cynllun ei gyfrif fel cynllun cyfrannol diffiniedig ac mae cost y cynllun yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifo. £14,178,172 (£13,188,818 yn 2004-05) oedd cyfanswm cyfraniad taladwy'r cyflogwr yn 2005-06.

Mae'r Cynllun yn amodol ar brisiad llawn i ddibenion FRS17 bob pedair blyndd. Cafwyd y prisiad diwethaf ar 31 Mawrth 2003. Mae'r cynllun yn amodol hefyd ar brisiad llawn gan Actiwari'r Llywodraeth i asesu asedau a rhwymedigaethau'r cynllun er mwyn gwneud arolwg o gyfraddau cyfraniad y cyflogwr, cafwyd y prisiad hwn ar 31 Mawrth 2004 ac nid yw wedi ei gwblhau eto. Roedd y prisiad a gyhoeddwyd ddiwethaf y seiliwyd y cyfraniadau arno yn ymwneud a'r cyfnod 1 Ebrill 1994 i 31 Mawrth 1999. Rhwng prisiadau, mae Actiwari'r Llywodraeth yn rhoi diweddariad o rwymedigaethau'r cynllun. Mae asesiad diweddaraf rhwymedigaethau'r Cynllun yn adroddiad Actiwari'r Cynllun sy'n rhan o Gyfrif Adnoddau Gynllun Pensiwn blynyddol y GIG (Lloegr a Chymru) a gyhoeddir yn flynyddol. Gellir gweld y cyfrifon ar wefan Asiantaeth Bensiynau'r GIG yn www.nhspa.gov.uk. Mae copiau ar gael o Lyfrfa Ei Mawrhydi.

Y casgliad o brisiad 1999 oedd fod y cynllun yn parhau i weithredu ar sylfaen ariannol sicr a gweddill tybiannol y cynllun ydy £1.1 biliwn. Argymhellwyd bod cyfraniadau cyflogwyr yn cael eu gosod ar 14% o dal pensiynadwy o 1 Ebrill 2003. Ar gyngor yr actiwari gellir amrywio'r cyfraniad o bryd i'w gilydd i adlewyrchu newidiadau yn rhwymedigaethau'r cynllun. Mae gweithwyr yn talu cyfraniadau o 6% (staff llaw 5%) o'u tal pensiynadwy.

Cyfarwyddyr cyrff GIG gan yr Ysgrifennydd Gwladol i godi cyfraniadau cost pensiwn y cyflogwr ar dreuliau gweithredu fel a phan y dont yn ddyledus.

Mae'r cynllun yn gynllun "cyflog terfynol". Fel arfer seilir pensiwn blynyddol ar 1/80 o'r gorau o dâl pensiynadwy y tair blynedd olaf am bob blwyddyn o wasanaeth. Mae swm un taliad sy'n gyfwerth fel arfer â phensiwn 3 blynedd yn daladwy ar ymddeoliad. Rhoir cynnydd blynyddol ar daliadau pensiwn yn ôl cyfraddau a ddiffiniwyd gan y Ddeddf (Cynnydd) Pensiynau 1971, a seilir hwy ar newidiadau mewn prisiau gwerthu yn y deuddeg mis yn diweddu 30 Medi yn y flwyddyn galendr flaenorol. Ar farwolaeth, mae pensiwn o 50% o bensiwn yr aelod fel arfer yn daladwy i'r priod sy'n goroesi.

Mae pensiwn a delir yn gynnar, gydag ychwanegiad, ar gael i aelodau'r cynllun sy'n methu cyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol yn barhaol oherwydd salwch neu analluedd. Mae tâl marwolaeth o ddwywaith tâl pensiynadwy blwyddyn derfynol am farwolaeth mewn gwasanaeth yn daladwy, a hyd at bum gwaith eu pensiwn am farwolaeth wedi ymddeoliad, llai pensiwn a dalwyd yn barod, yn amodol ar uchafswm cyfwerth â dwywaith tâl pensiynadwy blwyddyn derfynol yr aelod llai ei gyfandaliad ar ymddeoliad i'r rhai hynny sy'n marw ar ôl ymddeol, yn daladwy.

Ni chaiff costau pensiwn ychwanegol sy'n deillio o ymddeoliadau cynnar eu hariannu gan y cynllun ac eithrio pan fydd yr ymddeoliad cynnar o ganlyniad i salwch. Ar gyfer ymddeoliadau cynnar na chânt eu hariannu gan y cynllun caiff cyfanswm y rhwymedigaeth ar gyfer y costau ychwanegol ei godi ar y cyfrif incwm a gwariant ar yr adeg y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymrwymo ei hun i'r ymddeoliad, beth bynnag fo'r dull o dalu.

Mae'r Cynllun yn rhoi'r cyfle i aelodau gynyddu eu buddiannau drwy brynu arian Cyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol (AVCs) a ddarperir gan banel cydnabyddedig o gwmniau bywyd. O dan y trefniant gall gweithwyr wneud cyfraniadau i wella eu buddiannau pensiwn. Mae'r buddiannau sy'n daladwy yn gysylltiedig yn uniongyrchol â gwerth y buddsoddiadau a wnaethpwyd.

**1.17 Adnoddau hylifol**

Caiff adneuon a buddsoddiadau eraill y gellir eu newid yn rhwydd yn symiau penodol o arian am eu symiau cludo neu'n agos iddynt, eu trin fel adnoddau hylifol yn y datganiad llif arian. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn dal unrhyw fuddsoddiadau gyda dyddiadau aeddfedu sy'n mynd y tu hwnt i flwyddyn o'r dyddiad prynu.

**1.18 Treth ar werth**

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau'r Ymddiriedolaeth y tu allan i faes TAW ac, ar y cyfan, nid yw treth all-lif yn berthnasol ac nid yw treth mewnbwn ar bethau a brynir yn adferadwy. Codir TAW nad yw'n adferadwy ar y categori gwariant perthnasol neu caiff ei chynnwys yng nghost prynu cyfalafog asedau sefydlog. Lle bo treth all-lif yn cael ei chodi neu TAW mewnlif yn adferadwy, caiff y symiau eu datgan net o TAW.

**1.19 Arian Tramor**

Caiff trafodion mewn arian tramor eu trosglwyddo'n sterling ar y cyfraddau cyfnewid sy'n gyfredol ar ddyddiadau'r trafodion. Rhoddir yr enillion a'r colledion cyfnewid dilynol ar y Cyfrif Incwm a Gwariant.

**1.20 Asedau trydydd parti**

Nid yw asedau sy'n perthyn i drydydd parti (fel arian sy'n cael ei gadw ar ran Cleifion) yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes yr Ymddiriedolaeth ddiddordeb manteisiol ynddynt. Rhoir manylion asedau trydydd parti yn nodyn 27 y cyfrifon.

**1.21 Difidendau Cyfalaf Difidend Cyhoeddus**

Caiff taliad, sy’n adlewyrchu rhagolwg cost y cyfalaf a ddefnyddir gan yr Ymddiriedolaeth GIG, ei dalu fel cyfalaf difidend cyhoeddus. Amcangyfrifir y taliad ar y gwir gyfradd a osodir gan Drysorlys Ei Mawrhydi (3.5% ar hyn o bryd) ar ragolwg swm cario pob ased llai rhwymedigaethau, ac eithrio asedau a gafwyd yn rhodd ac arian gyda Swyddfa’r Tâl-feistr Cyffredinol.

**1.22 Cyllidebau ar y Cyd**

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw gyllidebau ar y cyd.

## 2. Adrodd cylchrannol

Nid oes gan yr Ymddiriedolaeth unrhyw gylchrannau busnes fel a ddiffiniwyd yn SSAP25 - Adrodd Cylchrannol

## 3. Incwm o weithgareddau

| | | 2004-05 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Byrddau iechyd lleol | **176,503** | 166,387 |
| Comisiwn Iechyd Cymru | **8,378** | 7,796 |
| Ymddiriedolaethau GIG | **2,051** | 2,012 |
| Awdurdodau iechyd strategol ac ymddiriedolaethau gofal cychwynnol | **2,033** | 1,815 |
| Ymddiriedolaethau Sefydledig | **0** | 0 |
| Awdurdodau lleol | **1,726** | 1,225 |
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **4,503** | 5,288 |
| Heb fod yn rhai'r GIG: | | |
| Incwm cleifion preifat | **146** | 237 |
| Cleifion tramor (heb gytundeb) | **24** | 7 |
| Costau Deddf Traffig y Ffyrdd | **434** | 485 |
| Incwm arall o weithgareddau | **291** | 344 |
| **Cyfanswm** | **196,089** | 185,596 |

Mae incwm RTA yn amodol ar ddarpariaeth ar gyfer dyledion amheus o 8.7% i adlewyrchu cyfraddau casglu disgwyliedig

Mae incwm o Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys £DIM (£DIM yn 2004-05) mewn perthynas ag addasiad ariannu i wrthbwyso effaith FRS11 ar y cyfrifon.

## 4. Incwm gweithredu arall

| | | 2004-05 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gwasanaethau cludiant cleifion | **0** | 0 |
| Addysg, hyfforddiant ac ymchwil | **5,633** | 5,119 |
| Cyfraniadau elusennol ac eraill at wariant | **1,472** | 1,482 |
| Trosglwyddo o gronfa wrth gefn asedau a gafwyd yn rhodd | **354** | 533 |
| Trosglwyddo o gronfa wrth gefn grantiau'r llywodraeth | **0** | 0 |
| Cynlluniau creu incwm nad ydynt yn seiliedig ar ofal cleifion | **168** | 249 |
| Incwm arall: | | |
| Darpariaeth gwasanaethau golchi, patholeg, cyflogau | **122** | 110 |
| Costau llety ac arlwyo | **1,428** | 1,291 |
| Ffïoedd mortiwari | **97** | 106 |
| Taliadau'r staff ar gyfer defnyddio ceir | **242** | 232 |
| Uned busnes (nodwch) | **0** | 0 |
| Eraill | **358** | 2,315 |
| **Cyfanswm** | **9,874** | 11,437 |

## 5. Treuliau gweithredu

### 5.1 Mae treuliau gweithredu yn cynnwys

| | | 2004-05 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Nwyddau a gwasanaethau o gyrff eraill y GIG | **3,980** | 3,949 |
| Nwyddau a gwasanaethau o Ymddiriedolaethau Sefydledig eraill y GIG | **0** | 0 |
| Prynu gofal iechyd o gyrff nad ydynt yn y GIG | **1,216** | 1,235 |
| Costau'r cyfarwyddwyr | **727** | 684 |
| Costau'r staff | **149,845** | 139,377 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau - clinigol | **21,667** | 20,892 |
| Cyflenwadau a gwasanaethau - cyffredinol | **3,977** | 3,973 |
| Sefydlu | **4,625** | 4,849 |
| Cludiant | **385** | 345 |
| Adeiladau | **7,305** | 9,144 |
| Dibrisiant a dileu | **6,953** | 6,668 |
| Amhariadau a gwrthdroadau ar asedau sefydlog | **0** | 0 |
| Ffïoedd archwilio | **170** | 165 |
| Taliadau eraill i'r archwilwyr | **0** | 0 |
| Colledion, taliadau arbennig a dyledion anadferadwy | **364** | 514 |
| Treuliau gweithredu eraill | **1,051** | 1,759 |
| **Cyfanswm** | **202,265** | 193,554 |

### 5.2 Colledion, taliadau arbennig a dyledion anadferadwy: taliadau a godir ar dreuliau gweithredu

| | | 2004-05 |
|---|---|---|
| **Cynnydd/gostyngiad yn y ddarpariaeth ar gyfer taliadau yn y dyfodol:** | **£000** | £000 |
| Esgeulustod clinigol | **951** | 9,060 |
| Anaf personol | **135** | 361 |
| Yr holl golledion eraill a thaliadau arbennig | **108** | 81 |
| Ffïoedd cyfreithiol amddiffyn a chostau gweinyddol | **25** | 51 |
| Cynnydd/gostyngiad gros yn y ddarpariaeth ar gyfer taliadau yn y dyfodol | **1,219** | 9,553 |
| | | |
| Cyfraniad i'r Gronfa Risg Cymru | **0** | 0 |
| Premiwm ar gyfer trefniadau eraill yswiriant | **0** | 0 |
| Dyledion anadferadwy | **0** | 0 |
| **Llai**: incwm a dderbyniwyd/ sy'n ddyledus o Gronfa Risg Cymru | **(855)** | (9,039) |
| **Cyfanswm y gost** | **364** | 514 |

Mae anaf personol yn cynnwys £55,282 (2004-05 £10,855) am fuddiannau anaf parhaol.

Cyfraniad i Gronfa Risg Cymru nad yw'n daladwy'n uniongyrchol gan Ymddiriedolaethau o 01.04.04

**5.3 Ymrwymiadau o dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo**

| | Tir ac adeiladau | | Prydlesau eraill | |
|---|---|---|---|---|
| | | 2004-05 | | 2004-05 |
| | **£000** | £000 | **£000** | £000 |
| Prydlesau gweithredu sy'n dod i ben: | | | | |
| O fewn 1 flwyddyn | **8** | 25 | **192** | 144 |
| Rhwng 1 a 5 mlynedd | **44** | 33 | **696** | 630 |
| Ar ôl 5 mlynedd | **6** | 6 | **0** | 97 |
| **Cyfanswm** | **58** | 64 | **888** | 871 |

Mae treuliau gweithredu yn cynnwys £902,212 ar gyfer gweithredu rhenti prydles (2004-05 £1,182,867) a £DIM ar gyfer llogi cyfarpar/peiriannau (2004-05 £DIM).

**5.4 Taliadau'r cyfarwyddwyr**

| | Taliadau fel Cyfarwyddwr | Taliadau eraill | Cyfanswm | 2004-05 |
|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | £000 |
| Taliadau cyfarwyddwyr anweithredol | 101 | 0 | **101** | 92 |
| Taliadau cyfarwyddwyr gweithredol: | | | | |
| cyflogau sylfaenol | 489 | 63 | **552** | 531 |
| buddiannau | 9 | 0 | **9** | 9 |
| bonws yn ôl perfformiad | 0 | 0 | **0** | 0 |
| cyfraniadau pensiwn a dalwyd | 73 | 4 | **77** | 74 |
| Is-gyfanswm | 672 | 67 | **739** | 706 |
| Iawndal ar gyfer colli swydd | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Pensiynau ar gyfer cyfarwyddwyr a chyn gyfarwyddwyr (ar wahân i gynllun pensiwn y GIG) | 0 | 0 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | 672 | 67 | **739** | 706 |

Ni ildiodd yr un Cyfarwyddwr i unrhyw daliadau ac ni thalwyd unrhyw lwfansau yn lle hyn

**5.4 Taliadau'r cyfarwyddwyr (parhad):**

Mae tâl y cadeirydd, y prif weithredwr a'r cyfarwyddwr ar y cyflog mwyaf
(os nad y prif weithredwr sydd ar y cyflog mwyaf) fel a ganlyn:

| | Taliadau fel cyfarwyddwr | Taliadau eraill | Cyfanswm | 2004-05 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **Cadeirydd** | | | | |
| Tâl sylfaenol | 39 | 0 | **39** | 35 |
| Buddiannau | 1 | 0 | **1** | 2 |
| | 40 | 0 | **40** | 37 |
| **Prif Weithredwr** | | | | |
| Cyflogau sylfaenol | 136 | 0 | **136** | 128 |
| Buddiannau | 4 | 0 | **4** | 5 |
| Bonws yn ôl perfformiad | 0 | 0 | **0** | 0 |
| | 140 | 0 | **140** | 133 |
| Cyfraniadau pensiwn | 19 | 0 | **19** | 18 |
| | 159 | 0 | **159** | 151 |
| **Y cyfarwyddwr ar y cyflog mwyaf*** | | | | |
| Cyflogau sylfaenol | 104 | 63 | **167** | 158 |
| Buddiannau | 0 | 0 | **0** | 1 |
| Bonws yn ôl perfformiad | 0 | 0 | **0** | 0 |
| | 104 | 63 | **167** | 159 |
| Cyfraniadau pensiwn | 20 | 3 | **23** | 22 |
| **Cyfanswm** | 124 | 66 | **190** | 181 |

* os nad y prif weithredwr ydy'r cyfarwyddwr ar y cyflog mwyaf

## 6. Costau'r gweithwyr a nifer y gweithwyr

**6.1 Costau'r gweithwyr**

| | Staff Parhaol | Staff i mewn ar secondiad | Staff asiantaeth, dros dro a chontract | Cyfanswm | 2004-05 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Cyflogau ac enillion | 120,879 | 307 | 5,772 | **126,958** | 118,476 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 9,156 | 0 | 0 | **9,156** | 8,226 |
| Costau pensiwn | 14,178 | 0 | 0 | **14,178** | 13,189 |
| Costau pensiwn eraill | 179 | 0 | 0 | **179** | 74 |
| **Cyfanswm** | 144,392 | 307 | 5,772 | **150,471** | 139,965 |

**6.2 Nifer y gweithwyr ar gyfartaledd**

| | Staff Parhaol | Staff i mewn ar secondiad | Staff asiantaeth, dros dro a chontract | Cyfanswm | 2004-05 |
|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
| Meddygol a deintyddol | 315 | 1 | 24 | **340** | 329 |
| Staff ambiwlans | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Gweinyddol a staff yr ystadau | 851 | 0 | 5 | **856** | 833 |
| Cynorthwywyr gofal iechyd a staff cefnogi eraill | 1,201 | 1 | 0 | **1,202** | 1,175 |
| Nyrsys, Bydwragedd ac ymwelwyr iechyd | 1,556 | 0 | 0 | **1,556** | 1,547 |
| Pobl sy'n dysgu bod yn nyrsys, yn fydwragedd ac yn ymwelwyr iechyd | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 |
| Staff gwyddonol, therapiwtig a thechnegol | 587 | 1 | 4 | **592** | 585 |
| Staff gofal cymdeithasol | 4 | 3 | 0 | **7** | 7 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | **0** | 0 |
| **Cyfanswm** | **4,514** | **6** | **33** | **4,553** | 4,476 |

**6.3 Buddiannau'r gweithiwr**

Nid oes gan yr ymddiriedolaeth gynllun buddiant i'r gweithiwr ac ni thalwyd unrhyw fuddiannau.

## 6.4 Costau rheoli'r Ymddiriedolaeth

| | | | 2004-05 | |
|---|---|---|---|---|
| | | **Canran cyfanswm yr incwm** | | Canran cyfanswm yr incwm |
| | **£000** | | £000 | |
| Costau rheoli'r Ymddiriedolaeth | **7,710** | **3.7%** | 7,323 | 3.7% |
| Incwm | **205,963** | | 197,033 | |

Cesglir y wybodaeth hon am gostau gan ddefnyddio'r diffiniad ar gyfer costau rheoli'r Ymddiriedolaeth a gynhwysir yn WHC(2000)113.

## 6.5 Costau ymddeol o ganlyniad i salwch

Yn 2005-06 (blwyddyn flaenorol 2004-05) cytunwyd ar 12 (14) o ymddeoliadau cynnar o'r Ymddiriedolaeth ar sail salwch. Costau pensiwn ychwanegol amcangyfrifedig yr ymddeoliadau salwch hyn (a amcangyfrifir ar gyfartaledd ac a delir gan Gynllun Pensiwn y GIG) fydd £680,682 (£617,085)

## 7. Polisi Talu'r Sector Cyhoeddus - Mesur Cydymffurfio

### 7.1 Côd talu'n brydlon - mesur cydymffurfio

Mae'r Cynulliad yn mynnu bod yr Ymddiriedolaethau'n talu eu holl gredydwyr yn unol â chôd talu'n brydlon y CBI a rheolau Cyfrifo'r Llywodraeth. Y targed yw talu'r holl gredydwyr masnach o fewn 30 diwrnod o dderbyn nwyddau neu anfoneb ddilys (pa un bynnag sydd hwyraf) oni chytunir ar delerau talu gwahanol gyda'r cyflenwr.

| | | | 2004-05 |
|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **£000** | £000 |
| **GIG** | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd 2005-06 | **2,506** | **9,158** | 8,768 |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | **2,456** | **8,997** | 8,749 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | **98.0%** | **98.2%** | 99.8% |
| **Heb fod yn rhai'r GIG** | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd 2005-06 | **74,204** | **53,014** | 49,992 |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | **72,430** | **51,829** | 49,198 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | **97.6%** | **97.8%** | 98.4% |
| **Cyfanswm** | | | |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd 2005-06 | **76,710** | **62,172** | 58,760 |
| Cyfanswm y biliau a dalwyd o fewn y targed | **74,886** | **60,826** | 57,947 |
| Canran y biliau a dalwyd o fewn y targed | **97.6%** | **97.8%** | 98.6% |

### 7.2 Deddf (Llog)Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr 1998

| | | 2004-05 |
|---|---|---|
| | **£** | £ |
| Symiau a gynhwysir o fewn y Llog sy'n Daladwy (nodyn 9) sy'n deillio o geisiadau a wnaed o dan y ddeddfwriaeth hon ac o iawndal a dalwyd ar gyfer costau adennill dyledion. | **0** | 0 |

## 8. Elw (colled) ar waredu asedau sefydlog

Cyfrifir yr elw / (colled) ar waredu asedau sefydlog fel a ganlyn:

| | | 2004-05 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Elw ar waredu tir ac adeiladau | **0** | 0 |
| Colled ar waredu tir ac adeiladau | **0** | 0 |
| Elw ar waredu cyfarpar ac offer | **2** | 0 |
| Colled ar waredu cyfarpar ac offer | **(3)** | (7) |
| Elw ar waredu asedau sefydlog aniriaethol | **0** | 0 |
| Colled ar waredu asedau sefydlog aniriaethol | **0** | 0 |
| | **(1)** | (7) |

## 9. Llog sy'n daladwy

| | | 2004-05 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Benthyca gan y Llywodraeth | **0** | 0 |
| Prydlesau cyllid a chynlluniau PFI | **0** | 0 |
| Eraill | **0** | 0 |
| | **0** | 0 |

## 10. Asedau sefydlog aniriaethol

| | Trwyddedau Meddalwedd | Trwyddedau a nodau masnachu | Patentau | Gwariant Datblygiad | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau gros ar 1 Ebrill 2005 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Mynegrifau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Amhariadau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailddosbarthiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailbrisiadau eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ychwanegiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Asedau a waredwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
4.4.14 Mewn ymateb i Gynllun Hyfforddi a Gwybodaeth Trais ac Ymosodedd Cymru Gyfan cynyddodd yr Ymddiriedolaeth ei lefelau staffio hyfforddi er mwyn darparu mwy o hyfforddiant Trais ac Ymosodedd ar draws yr Ymddiriedolaeth.

### 4.5 Dysgu o arfer da

4.5.1 Penderfynodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, nid yn unig y bydd y sefydliad yn dysgu o gamgymeriadau a ddynodir drwy hysbysu digwyddiadau anffafriol, systemau cwynion a chyfreithiad, ond bydd yn mabwysiadu agwedd rhagweithiol tuag at ddysgu.

4.5.2 Sefydlwyd Bwrdd Moderneiddio aml-asiantaethol gan yr Ymddiriedolaeth i oruchwylio datblygiadau economi iechyd o ran ffyrdd newydd o weithio.

4.5.3 Cefnogir y Bwrdd gan dîm moderneiddio'r Ymddiriedolaeth o dan arweiniad y Cyfarwyddwr Moderneiddio sy'n atebol i'r Prif Weithredwr. Mae strategaeth moderneiddio'r Ymddiriedolaeth yn rhoi cyfeiriad a blaenoriaethau'r rhaglen foderneiddio y cytunwyd arnynt gan gynnwys mentrau cenedlaethol a gefnogwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, projectau cymuned iechyd lleol a chynlluniau dan arweiniad yr Ymddiriedolaeth. Nod y strategaeth foderneiddio yw "gweld a gwneud pethau'n wahanol er mwyn gwella perfformiad" drwy ddatblygu galluoedd a diwylliant i wella'r broses o newid.

4.5.4 Penodwyd hwylusydd Llwybrau Gofal Integredig (ICP) gan yr Ymddiriedolaeth, a'i phartneriaid, i gydlynu datblygiad llwybrau gofal. Mae ICP yn disgrifio'r broses angenrheidiol a gynlluniwyd i ddarparu canlyniadau penodol, yn casglu'r amrywiaeth

rhwng gofal a gynlluniwyd a gwir ofal, ac yn ysgogi gwelliant systematig a pharhaol i arfer a chanlyniadau. Mae hyn yn arwain at safoni elfennau hanfodol gofal sy'n ffactor pwysig o ran lleihau risg camgymeriad clinigol a chanlyniadau gwael i gleifion.

4.5.5 Mae rheolwyr yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio gwahanol ddulliau o ddiweddaru eu gwybodaeth; tanysgrifio i gyhoeddiadau, aelodaeth cyrff proffesiynol, defnyddio llyfrgell yr Ymddiriedolaeth a chyswllt gyda sefydliadau allweddol fel Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch i Gleifion, Cronfa Risg Cymru, Uned Cefnogi Rheolaeth Glinigol a.y.b.

## 5. <u>Y fframwaith risg a rheoli</u>

### 5.1 **Strategaeth**

5.1.1 Adolygwyd y strategaeth rheoli risg yn ystod y cyfnod dan sylw a chafodd ei chymeradwyo i'w defnyddio yn yr Ymddiriedolaeth. Y strategaeth yw'r sylfaen eang y bydd yr Ymddiriedolaeth yn ei ddefnyddio i ddilyn agwedd gweddol ymarferol tuag at weithgareddau rheoli risg. Prif elfennau'r strategaeth yw bod:

- Rheoli risg yn rhan hanfodol o brosesau rheoli a chynllunio ariannol y sefydliad cyfan
- Bod holl agweddau rheoli risg yn cael eu trin mewn modd corfforaethol a strwythuredig.
- Bod amcanion, cyfrifoldebau ac atebolrwydd rheoli risg yn cael eu diffinio'n glir ar bob lefel o'r sefydliad
- Bod y staff i gyd yn gymwys ac yn ddiogel i arfer ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldeb i reoli risg clinigol ac anghlinigol
- Bod gan y staff i gyd y grym i hysbysu risgiau a chofnodi pryderon o ran arfer peryglus
- Bod systemau cefnogi, cyfathrebu a gwybodaeth yn bodoli i helpu gweithredu'r strategaeth a'r newid diwylliannol yn ei sgîl
- Bod arbedion a wnaethpwyd gan yr Ymddiriedolaeth o ganlyniad i reoli risg yn effeithiol yn cael eu hail-fuddsoddi yn y rhaglen rheoli risg
- Bod strategaethau, polisïau a strwythurau'n cael eu hadolygu a'u gwerthuso'n rheolaidd er mwyn sicrhau y llwyddir i gwrdd â'r amcanion

5.1.2 Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi cytuno y caiff rhaglen asesu risg ei chynnal ledled yr Ymddiriedolaeth. Rydym wedi buddsoddi mewn system meddalwedd integredig i reoli agweddau Cwynion, Cyfreithiad, Hysbysu Digwyddiadau Anffafriol ac Asesu Risg. Ein strategaeth yw ystyried **<u>pob</u>** risg i'r unigolyn a'r sefydliad, dynodi triniaethau at risg, a datblygu proffil risg y sefydliad.

5.1.3 Mae gan yr Ymddiriedolaeth Grwp Adolygu Risg o dan gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Rheoli Perfformiad i adolygu'r gofrestr risg a chynlluniau gweithredu cysylltiedig ac i ddatblygu proffil risg yr Ymddiriedolaeth.

5.1.4 Mae'r Ymddiriedolaeth yn asesu risg mewn gwahanol ddulliau, ond mae'r prif amcanion yn gyffredin iddynt i gyd, dynodi peryglon, pwy/beth allai gael ei niweidio, beth fydd yr effaith ac asesu beth sydd angen ei wneud i ddileu neu leihau'r lefel o risg.

## 5.2 Dosbarthu Risg

5.2.1 Cytunodd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth ar ddosbarthiadau risg bras sy'n adlewyrchu i ba raddau a pha mor gyflym y mae angen gweithredu, os o gwbl, er mwyn dileu neu leihau risg. Mae'r dosbarthiadau bras yma'n cynnwys risgiau y mae'r Ymddiriedolaeth yn eu hystyried yn 'isel iawn, isel, canolig ac uchel' .

## 5.3 Blaenoriaethau Risg

5.3.1 Yn gyffredin i unrhyw sefydliad cymhleth mawr mae blaenoriaethau risg yr Ymddiriedolaeth yn debyg o newid yn gyson. Mae yna fodd bynnag risgiau mawr y mae'r Ymddiriedolaeth yn ystyried y gallent ei hatal rhag sicrhau ei phrif amcanion. Dynodwyd y canlynol fel prif risgiau posibl i'r sefydliad:

**Sefydlogrwydd a Hyfywedd Ariannol**

Mae gan yr Ymddiriedolaeth ddyletswydd statudol i gyrraedd ei holl dargedau ariannol gorfodol a'r prif rai yw talu'r ffordd o ran incwm a gwariant a chadw o fewn ei Chyfyngiad Cyllido Ariannol bob blwyddyn ac felly gadw sefydlogrwydd a hyfywedd ariannol.

Er mwyn lleihau'r perygl o fethu cyrraedd ei thargedau ariannol gorfodol sefydlir peirianweithiau a strwythurau monitro. O ganlyniad i'r Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol a ddatblygwyd ar y cyd rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i Chomisiynwyr bu modd cyflwyno strategaeth gyllideb amlinellol i Fwrdd yr Ymddiriedolaeth ar ddechrau'r flwyddyn ariannol. Roedd y strategaeth amlinellol yn cynnig cyllideb fantoledig wedi gwelliant cost o 1% a dynodwyd rhagor o arbedion i ddarparu'n bennaf ar gyfer effaith ariannu'r diffyg yn Agenda ar gyfer Newid.

Roedd y Grwp Swyddogion Arweiniol yn golygu y gellid trafod a monitro cynnydd o ran darparu'r Fframwaith Gwasanaeth ac Ariannol ar sail partneriaeth. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn gallu trafod cynnydd ariannol bob dau fis gyda'i huwch reolwyr trwy'r Grwp Strategaeth Ariannol, o dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol. Hefyd, paratowyd adroddiadau a rhagolygon ariannol misol ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolaeth, y Grwp Gweithredol a'r Swyddfa Ranbarthol gan gwblhau cofnodion monitro misol. Gwnaethpwyd Adolygiadau o Gyfarwyddiaethau yn ystod y flwyddyn hefyd.

Rhoir sicrwydd llawn trwy gyflwyno'r Cyfrifon Ariannol i'r Pwyllgor Archwilio a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth.

**Heintiau cysylltiedig â gofal iechyd**

Mae gan yr Ymddiriedolaeth dîm penodedig o Glinigwyr sy'n gyfrifol am sicrhau safonau diogel o arfer o ran rheoli haint. Oherwydd buddsoddiad diweddar bu modd cynyddu staff nyrsio'r tîm.

Mae'r tîm yn gwneud archwiliadau rheolaidd o amgylchedd ac arfer clinigol pob rhan glinigol o'r Ymddiriedolaeth ac mae'n cydymffurfio'n llawn ag arolygiaeth orfodol Gwasanaeth Cenedlaethol Iechyd y Cyhoedd (NHPS).

Cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth Gel Glanhau Dwylo Alcohol ym mhobman a rhoddwyd pecynnau maint poced i Staff y Gymuned a Iechyd Meddwl. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi mabwysiadu ymgyrch Dwylo Glanach yr Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch i Gleifion (NPSA) gan roi IMPIWIPES i gleifion sy'n methu symud – deunyddiau glanhau dwylo cyn prydau bwyd.

Mae'r Tîm Rheoli Haint wedi cynyddu nifer y sesiynau addysg a hyfforddiant i bob grŵp staff, wedi rhoi gwybodaeth bob aelod newydd o staff trwy'r Rhaglen Gyflwyno Gorfforaethol ac wedi datblygu system nyrs gyswllt gadarn yn yr Ymddiriedolaeth gyda rhaglen dreigl tri mis o secondiad.

Mae'r Tîm Rheoli Haint wedi cynyddu ymwybyddiaeth ymhlith pob grwp staff, cleifion a gofalwyr trwy fwy o addysgu a rhannu gwybodaeth, amryw o daflenni gwybodaeth i gleifion a phosteri.

I ddelio â'r risg hon sydd yn uchel mewn proffil ceir cyfarfodydd chwarterol o'r Pwyllgor Rheoli Haint a chyhoeddir ffigyrau misol cyfraddau haint gan NPHS, sydd ar gael yn electronig neu ar eu gwefan.

Rhoir mwy o sicrwydd o ran delio â'r risg hon trwy Safon 14 Cronfa Risg Cymru – Rheoli Haint a gafodd sgôr o 87% yn yr asesiad allanol.

**Gwasanaeth brys effeithiol**

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dynodi nifer o beryglon a allai effeithio ar ddarparu gwasanaeth brys effeithiol i bobl Gogledd Orllewin Cymru.

Y peryglon a ddynodwyd fel y rhai a effeithiodd ar wasanaeth ac a gynyddodd y gofyn am adnoddau'r Ymddiriedolaeth oedd y pandemig ffliw a'r tarfu ar wasanaethau cyhoeddus.

Tynnwyd sylw at y peryglon hyn trwy'r Tîm Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwella Gwasanaethau sy'n atebol i'r Bwrdd am reoli'r rhain.

Er mwyn rheoli'r peryglon hyn a gwella'r gwasanaeth, mae'r Ymddiriedolaeth wedi adolygu a diweddaru ei Chynllun Digwyddiadau Mawr, wedi diweddaru ei Chynllun Parhad Busnes ac wedi mabwysiadu Polisi Dwysâd Gwelyau.

Fel rhan o ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i weithio mewn partneriaeth â'n cydweithwyr yn y gwasanaethau brys, rydym yn cymryd rhan weithredol mewn ymarferion digwyddiad mawr, ar lefel ranbarthol, er mwyn sicrhau y gweithredir gwasanaeth cyflym, o ansawdd da, pe byddai angen.

Er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddelio â'r peryglon sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth brys effeithiol, mae staff yr Ymddiriedolaeth yn mynd i Grwp Ymgynghorol Cynllunio rhag Argyfwng Cymru Gyfan, Grwp Pandemig Ffliw y Gymuned Iechyd, a

Grwp Cydlynu Iechyd Gogledd Cymru. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi sefydlu ei Grwp Parodrwydd at Argyfwng Iechyd ei hun a Grwp Pandemig Ffliw'r Ymddiriedolaeth.

Yn ogystal â'r uchod, mae'r Ymddiriedolaeth wedi arolygu ac adolygu swyddogaeth y Swyddog Digwyddiad Mawr o Glinigydd i'r Rheolwr Ar-alwad, gan ryddhau clinigwyr ar gyfer gofal clinigol uniongyrchol.

Er mwyn darparu'r sicrwydd angenrheidiol sy'n gysylltiedig â'r maes pennaf hwn o risg, mae'r Ymddiriedolaeth wedi hunanasesu ei hun yn 96% o gymharu â Safon 25 Rheoli Risg Cymru - Cynllunio at Argyfwng ac wedi sicrhau sgôr o 86% o gymharu ag asesiad Ymgynghorydd Cynllunio at Argyfwng Iechyd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Rheolaeth a Thechnoleg Gwybodaeth**

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dynodi trefniadau contract y System Rheoli Gwybodaeth am Gleifion (PiMS) fel risg gan fod y contract cyfredol wedi ei ymestyn ar gyfarwyddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Nid yw caledwedd PiMS wedi ei ddiweddaru am amryw o flynyddoedd ac nid yw caledwedd yr Ymddiriedolaeth yn cael ei gefnogi bellach gan y gwneuthurwr. Ond nid yw'r Ymddiriedolaeth yn gallu mynd ymlaen i gaffael system newydd nes bydd Agenda Hysbysu Gofal Iechyd Cymru Gyfan yn cynnig ateb.

Er mwyn sicrhau bod Hysbysu Gofal Iechyd ar y blaen o ran moderneiddio gwasanaethau cyfredol a'r fframwaith gwybodaeth, mae staff yr Ymddiriedolaeth wrthi'n datblygu'r agenda hon tra'n sicrhau bod materion yr Ymddiriedolaeth yn cael eu codi ar lefel genedlaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi sefydlu Bwrdd Hysbysu Gofal Iechyd lleol dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Gwella Gwasanaethau.

Mae Bwrdd yr Ymddiriedolaeth wedi eu hysbysu ar beryglon y contract ac wedi cael cyflwyniad gan Gyfarwyddwr y Rhaglen, Hysbysu Gofal Iechyd.

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi nodi gohebiaeth oddi wrth Hysbysu Gofal Iechyd yn rhoi'r sefyllfa gyfredol o ran system yn lle PiMS yn ogystal â chael adroddiadau diweddaraf gan Swyddfa Archwilio Cymru sydd yn parhau i fonitro'r mater hwn.

**Moderneiddio Adnoddau Dynol (HR)**

Mae gallu'r gweithlu yn golygu gallu'r sefydliad i sicrhau y cyflawnir anghenion gofal iechyd yn effeithiol.

Y prif beryglon a ddynodwyd wrth gyflwyno agenda moderneiddio HR yw Agenda ar gyfer Newid, oherwydd y diffyg ariannol a'r cynnydd ym muddiannau'r staff sy'n effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir a'r Cofnod Staff Electronig oherwydd y gallai methiant i'w weithredu erbyn Tachwedd 2006 arwain at gosb ariannol. Sefydlwyd Byrddau Project yn barod, o dan gadeiryddiaeth Cyfarwyddwr HR, ar gyfer Agenda ar gyfer Newid a Chofnod Electronig Staff (ESR), sy'n rheoli'r peryglon a ddynodwyd mewn projectau.

Mae'r Cyfarwyddwr HR yn eistedd ar y Bwrdd Moderneiddio (a gadeirir gan y Prif

Weithredwr_ a'r Grwp Strategaeth Cyllid (a gadeirir gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol) ac mae'n rhoi diweddariad ar Foderneiddio Tâl yn rheolaidd I Fwrdd yr Ymddiriedolaeth.

**Gwasanaethau Isadeiledd**

Isadeiledd Trydanol

Cafodd isadeiledd trydanol foltedd isel Ysbyty Gwynedd ei gynllunio i gyflenwi llwyth trydan yr ysbyty gan ystyried twf y safle am o leiaf 20 mlynedd. Ond, oherwydd yr ehangu fu ar wasanaethau'r safle mae'r system yn orlawn ac mewn perygl gan fod y llwythi'n fwy na'r hyn y mae'r system yn ei ganiatáu. Prif berygl llwythi gormodol yw datgysylltu gwasanaethau hanfodol heb rybudd, oherwydd bod dyfeisiau llwythog sydd wedi eu hamddiffyn yn cael eu ffafrio. Gall hyn fod yn beryglus gan arwain at ganlyniadau trychinebus.

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi dynodi Arian ar gyfer Generaduron Wrth Gefn newydd, gan leihau'r perygl o fethiannau trydanol am gyfnodau hir. Mae Gwasanaethau Gweithredol Ystadau hefyd wedi dechrau ar adolygiad Llwythi Trydanol hanfodol y safle i gyd, er mwyn dynodi lleoedd fyddai'n ysgafnhau'r llwyth neilltuedig ar y cylched hanfodol.

Dŵr

Dynodwyd lleoedd lle cafwyd diffyg yn y gwasanaethau dŵr poeth oherwydd lludded system pibelli copr Ysbyty Gwynedd gan gynnwys lleoedd i gleifion gan arwain at:

- Golli gwasanaeth critigol heb rybudd
- Perygl i gleifion a staff.

Cyflwynwyd achos busnes i Lywodraeth Cynulliad Cymru i ofyn am arian cyfalaf ar gyfer gweithredu rhaglen o bibelli newydd mewn dur gloyw, a chyflwyno'r newidiadau deddfwriaethol sydd angen eu gwneud ym mhob adran, fel rhan o'r cynllun.

Mae gan y Gyfarwyddiaeth Ystadau a Chyfleusterau gynlluniau wrth gefn i ddarparu gwasanaeth trwsio 24 awr, a chyfleusterau i lanhau achosion o orlifo.

## 6. Effeithiolrwydd y System Rheolaeth Fewnol a Sicrwydd a Roddwyd yn 2005/2006

6.1 Fel Swyddog Cyfrifol, rwyf yn gyfrifol am arolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Hysbysir f'arolwg o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan archwiliad allanol a gwaith yr archwilwyr mewnol a swyddogion gweithredol y sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaethpwyd gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio blynyddol ac adroddiadau eraill.

6.2 Rwyf wedi fy nghynghori ar oblygiadau canlyniad f'arolwg o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio ac amryw o Bwyllgorau eraill yr Ymddiriedolaeth ac rwyf yn bwriadu delio â gwendidau a sicrhau y caiff y system ei gwella'n gyson.

6.3 Mae f'arolwg o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol wedi ei arwain gan y canlynol:

## 6.4 Arolwg Safonau Rheoli Risg Cymru

6.4.1 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol, trwy Farn ac Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi darparu arolwg annibynnol o'r hunanasesiad o Safonau Rheoli Risg craidd Cymru (WRMS) am y cyfnod dan sylw. Rwyf yn sicr fod yr hunanasesiad yma'n adlewyrchiad realistig o'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu o ran rheoli risg sy'n dod o fewn y safonau craidd yma. Manylir ar farn y perfformiad o gymharu â'r safonau craidd yma isod.

| | | |
|---|---|---|
| Safon 1 | Polisi a Strategaeth Rheoli Risg | 89% |
| Safon 2 | Proffil Risg | 93% |
| Safon 3 | Hysbysu Digwyddiadau Anffafriol | 89% |
| Safon 37 | Rheolaeth | 91% |
| Safon 38 | Rheolaeth Ariannol | 99% |

6.4.2 Mae pob un o'r Safonau Rheoli Risg Cymru'n cael eu cydlynu gan Uwch Reolwr. Mae'r rheolwyr yma wedi cwblhau'r broses hunanasesu a byddant wedi datblygu cynlluniau gweithredu i ddelio â diffygion o ran perfformiad. Bydd cynlluniau gweithredu, wedi eu seilio ar yr hunanasesiad mewnol ac arolwg allanol o'r safonau gan Gronfa Risg Cymru yn cael eu cyflwyno i WAG yn Awst 2006.

## 6.5 Cyfranogiad deiliaid diddordeb ymhlith y cyhoedd o ran rheoli risgiau

6.5.1 Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio Cynghorau Iechyd Cymuned mewn nifer o ffyrdd i sicrhau cyfranogiad deiliaid diddordeb ymhlith y cyhoedd o ran rheoli risg.

6.5.2 Mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i gael y cyhoedd a chleifion i gyfranogi drwy ofyn eu barn am wasanaethau a ddarperir yn yr Ymddiriedolaeth, yn unol â chanllawiau arfer gorau 'Signposts One' a 'Signposts Two' a WHC(2004)084 Llunio Gwasanaethau'n Lleol. Cymerwyd lle'r cyfarfod Cyfranogiad Strategol y Cyhoedd a Chleifion (PPI) dros dro gan rwydwaith PPI Rhanbarthol Gogledd Cymru y mae'r Ymddiriedolaeth yn cyfranogi'n weithredol ynddi. Yn ystod 2006/2007, sefydlir rhwydwaith lleol newydd.

6.5.3 Yn ogystal â gwahodd y cyhoedd a Chynghorau Iechyd Cymuned (C'auIC) i holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd, mae cynrychiolwyr C'auIC yn aelodau nifer o Bwyllgorau'r Ymddiriedolaeth sy'n cynnwys, ond heb eu cyfyngu i, Is Bwyllgor Rheolaeth Glinigol a Grwp Monitro Cwynion yr Ymddiriedolaeth. Cyflwynir adroddiad blynyddol o weithgareddau PPI i Is Bwyllgor Rheolaeth Glinigol yr Ymddiriedolaeth ac yn Adroddiad Blynyddol Rheolaeth Glinigol. Asesir yr Ymddiriedolaeth yn allanol hefyd o ran ei pherfformiad o gymharu â Safon Rheoli Risg Cymru 8 – Cyfathrebu a gyrhaeddodd 81% yn 2005/2006.

6.5.4 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac ynddo gall aelodau'r cyhoedd holi'r Bwrdd ar ei adroddiad a'i gyfrifon blynyddol.

6.5.5 Mae Swyddog Rhyddid Gwybodaeth yr Ymddiriedolaeth yn gyswllt rhwng yr Ymddiriedolaeth a'i deiliaid diddordeb o ran rhoi gwybodaeth sy'n cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol y manylir arnynt yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

## 6.6 Trefniadau Rheolaeth Gorfforaethol

6.6.1 • Mae **Bwrdd yr Ymddiriedolaeth** yn arolygu'n gyson effeithiolrwydd amryw o'r prif systemau rheolaeth fewnol drwy dderbyn adroddiadau perfformiad yn arbennig o ran cyllid, rheoli perfformiad (rhestrau aros a phwysau brys), cwynion a chynlluniau cyfalaf.

6.6.2 • Cyfarfu'r **Pwyllgor Archwilio**, sy'n cynnwys pedwar cyfarwyddwr anweithredol, un ohonynt yn Gadeirydd, ar bedwar achlysur gwahanol ym mlwyddyn ariannol 2005/2006. Yn 2005/2006, ystyriodd y Pwyllgor Archwilio nifer o adroddiadau a phapurau oddi wrth yr Archwilwyr Allanol, Archwiliad Mewnol a'r Arbenigwr Gwrth Dwyll Lleol, a'r Safonau Rheoli Risg Cymru a asesir yn allanol.

6.6.3 • Mae'r **Is Bwyllgor Gwaddol**, sy'n cynnwys tri chyfarwyddwr anweithredol, un ohonynt yn Gadeirydd, y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol a minnau, a sefydlwyd i reoli'r cronfeydd elusennol, wedi rhoi sicrwydd y rheolir y cronfeydd sy'n cael eu dal yn effeithiol a bod unrhyw wariant wedi ychwanegu at werth y gwasanaeth a ddarperir gan yr Ymddiriedolaeth. Hefyd, mae'r pwyllgor wedi monitro perfformiad y portffolio buddsoddiadau ac wedi arolygu polisi cronfeydd cadw'r cronfeydd.

6.6.4 • Mae'r **Is Bwyllgor Rheolaeth Glinigol,** y mae ei aelodau'n cynnwys pedwar cyfarwyddwr anweithredol, un ohonynt yn Gadeirydd, fi fy hun a dau gyfarwyddwr gweithredol, yn ystod cyfnod yr adroddiad yma, wedi rhoi i'r Ymddiriedolaeth beirianwaith sy'n hysbysu'r Bwrdd a'r Uwch Reolwyr o ystod eang o faterion sy'n ymwneud â gweithredu Rheolaeth Glinigol yn effeithiol. Mae'r materion yma'n cynnwys ond heb eu cyfyngu i:

- Strategaeth Rheolaeth Glinigol
- Cyfranogiad Cleifion a'r Cyhoedd
- Rhaglen Dreigl tair blynedd Rheolaeth Glinigol
- Rheoli haint
- Amddiffyn Plant
- Digwyddiadau Anffafriol

Hefyd, drwy gael cofnodion, mae'r pwyllgor wedi goruchwylio'r gwaith a wneir gan nifer o bwyllgorau eraill, sef y grŵp Risg Glinigol, Grwp Llywio Rheolaeth Glinigol a'r Grwp Effeithiolrwydd Clinigol.

6.7 **Mae gwaith Archwiliad Mewnol** yn ystod y cyfnod dan sylw wedi rhoi i mi, drwy Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a'r Pwyllgor Archwilio safbwyntiau annibynnol a gwrthrychol ar y graddau y mae rheoli a rheolaeth risg wedi cefnogi'r Ymddiriedolaeth o ran cyflawni'r amcanion a gytunwyd.
Elfennau Safbwynt y Pennaeth Archwilio mewnol yw:

- Safbwynt ar gydymffurfiad cyffredinol y GIG gyda phum Safon craidd Rheoli Risg Cymru ;

- Safbwynt ar, a chyfyngedig i, y gwaith a wnaethpwyd gan Archwiliad Mewnol yn ystod y flwyddyn ar effeithiolrwydd rheoli'r risgiau hynny a ddynodwyd o fewn cofrestr risg y sefydliad a dogfennau perthnasol eraill.

Mae'r gwaith arall a wnaethpwyd gan Archwiliad Mewnol mewn meysydd y tu allan i

brif feysydd risg corfforaethol wedi ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol Archwiliad Blynyddol 2005/2006.

Rhoddodd archwiliad mewnol sylw arbennig i agweddau systemau rheoli, meistroli a llywodraethu ar risg a effeithiwyd gan newidiadau sylweddol i amgylchedd risg yr Ymddiriedolaeth ac eleni gwelwyd datblygu a gwella'r Cynllun Neilltuo a Dirprwyo o fewn Rheolau Sefydlog er mwyn gwella rheolyddion mewnol cyfredol tra'n cadw cydbwysedd ariannol.

Mae'r Adran Archwiliad Mewnol hefyd wedi rhoi lefel o sicrwydd i mi ynghylch parodrwydd yr Ymddiriedolaeth gyda'r Ddeddf Cysylltiadau Hiliol (Newidiad) 2000 a'r prosesau sydd gan yr Ymddiriedolaeth ar gyfer delio â chwynion.

Mae adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol i mi fy hun, y Pwyllgor Archwilio a Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn cynrychioli'r farn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol systemau rheoli, meistroli a llywodraethu'r Ymddiriedolaeth ar risg yn gyffredinol.

6.8 Cyfarfu'r **Pwyllgor Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol** yn rheolaidd drwy'r cyfnod dan sylw i drafod ystod eang o faterion a derbyn adroddiadau am ddigwyddiadau anffafriol. Mae gan y grŵp rhagweithiol yma aelodau o blith y staff sy'n adlewyrchu'r undebau llafur a gynrychiolir yn yr Ymddiriedolaeth, ac sy'n gweithio mewn partneriaeth ag uwch reolwyr i sicrhau cysylltiadau effeithiol o ran Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol yn y Gwaith.

6.9 Rwyf wedi cael sicrwydd ar agweddau ansawdd a threfniadaeth gwasanaethau Patholeg drwy'r **Achrediad Patholeg Glinigol** (CPA). Mae CPA yn fodd o achredu gwasanaethau patholeg glinigol yn yr Ymddiriedolaeth. Mae'n golygu gwneud archwiliad annibynnol o allu'r sefydliad i ddarparu gwasanaeth o safon uchel drwy ddatgan safon ddiffiniedig o arfer, sy'n cael ei chadarnhau gan arolwg o gydweithwyr. Mae holl ddisgyblaethau patholeg yn gwneud cais am arolwg o gymharu â safonau ansawdd sy'n cael eu penderfynu gan y CPA.

6.10 Rwyf wedi cael sicrwydd ar agweddau'r **Gwasanaeth Cofnodion Meddygol a Chodio Clinigol** drwy'r Rhaglen Achredu a Datblygu Cofnodion Meddygol (ADR), o dan reolaeth Ymchwil CASPE. Achredwyd yr Ymddiriedolaeth ar ôl asesiad o gydymffurfiad â safonau ADR. Mae'r wyth maes safonol yn eang ac yn cynnwys materion fel cyfleusterau ffisegol, y cofnod iechyd a systemau chwilio yn ogystal â chodio clinigol. Rhoddodd yr achrediad y sicrwydd bod gweithdrefnau'n bodoli i sicrhau dogfennau cywir, perthnasol a dibynadwy ar gleifion ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn i gefnogi gofal i gleifion.

6.11 Mae **CHKS**, cwmni masnachol sy'n arbenigo mewn defnyddio gwybodaeth iechyd gymharol wedi rhoi sicrwydd ar ansawdd gwasanaethau clinigol drwy nifer o adroddiadau clinigol. Mae'r wybodaeth yn cefnogi clinigwyr a rheolwyr wrth iddynt asesu a mesur perfformiad gofal iechyd. Mae'r rhaglenni y mae CHKS yn eu darparu ar gontract i'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio mesuriadau grŵp cymheiriaid a chenedlaethol, ar gyfer amryw o ddangosyddion, o weithgaredd Ysbyty er mwyn dynodi'r modd yr ydym yn wahanol i'n cymheiriaid. Fel rhan o'r rhaglen asesu risg mae'r Ymddiriedolaeth yn cael adroddiadau sy'n cefnogi rheolaeth llawer o brif faterion rheolaeth glinigol. Mae'r rhaglen hon yn dynodi Arbenigeddau, gweithdrefnau a

chlinigwyr y mae eu canlyniadau y tu allan i'r ystod a ddisgwylir gan yr Ymddiriedolaeth. Fel rhan o'r datblygiad parhaol yn y maes hwn cyflwynodd yr Ymddiriedolaeth y Rhaglen Dadansoddi Amrywiad Clinigol sy'n cyflwyno data ystyrlon ar farwoldeb, yn gwneud dehongli data'n haws drwy ddefnyddio siartiau rheoli, yn helpu darganfod pan fo proses allan o reolaeth ac yn gweithredu fel arwydd bod angen gweithredu. Mae'r dull o ddosbarthu'r holl becynnau yn cael ei adolygu ar hyn o bryd i wella mynediad ac ymarferoldeb. Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn cafodd yr Ymddiriedolaeth wobr am berfformiad ac roedd ymhlith y 40 ysbyty gorau yn y DU am y 5$^{ed}$ flwyddyn yn olynol.

6.12 **Draig Werdd** ydy'r Cynllun Rheolaeth Amgylcheddol a ddewiswyd i Gymru. Yn ystod Hydref 2005 cafodd safle'r prif ysbyty, Ysbyty Gwynedd, ei achredu i lefel 2 gan archwiliad allanol. Datblygwyd Polisïau a Gweithdrefnau ledled yr Ymddiriedolaeth a rhaglen i symud tuag at achredu holl safleoedd ysbytai'r Ymddiriedolaeth.

6.13 Cefais sicrwydd, trwy gymryd rhan yn **Arolwg Staff GIG Cymru 2005,** o ran y modd mae'n staff yn gweld eu gwaith a'r sefydliad yn gyffredinol. Yn yr adroddiad nodwyd nifer o ganfyddiadau da a dim canfyddiadau drwg o ran y meysydd y manylwyd arnynt yn yr arolwg.

6.14 Yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn mae'r Ymddiriedolaeth wedi elwa, fel rhan o Arolwg Cenedlaethol o Unedau Cadarn Canolig, o arolwg o'i chyfleuster Cadarn Canolig Ty Llywelyn ym Mryn y Neuadd. Mae'r arolwg a gynhaliwyd ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Chomisiwn Iechyd Cymru ar gais Pennaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, WAG wedi rhoi adroddiad i mi o'r meysydd o gryfder a'r rhai i'w gwella. Cymerir camau i ddelio â gwella perfformiad meysydd.

6.15 Mae'r Cyfarwyddeb Dyfeisiau Meddygol (93/42/EEC) yn gofyn i holl adrannau cyflenwadau di-haint ysbytai roi marc Cydymffurfiad Ewropeaidd ar bob dyfais a broseswyd i nodi cydymffurfiad â'r Gyfarwyddeb. Rhaid cofrestru'r cydymffurfiad hwn gydag Asiantaeth Reolaethol Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA).

Cyflwynwyd system rheoli ansawdd ac olrhain offer o fewn yr Adran Gwasanaethau Di-Haint. Yn dilyn arolwg ac archwiliad allanol cafodd yr Ymddiriedolaeth dystysgrifau cofrestru i ISO 9001:2000 ac ISO 13485:2003 a thrwy hynny sicrhau ei chofrestriad gyda'r MHRA yn ystod y cyfnod hwn dan sylw.

6.16 Rhoddodd adroddiad Arolwg HIW o ran Rhwydweithiau Canser yng Nghymru nifer o argymhellion imi, argymhellion y datblygir cynlluniau gweithredu ar eu cyfer.

**Llofnod Swyddog Cyfrifol** …………………………………...

**Dyddiad** …………………………………...

**DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR FEL SWYDDOG CYFRIFOL YR YMDDIRIEDOLAETH**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr fydd y Swyddog sydd yn Gyfrifol i'r Ymddiriedolaeth. Amlinellir cyfrifoldebau perthnasol y Swyddogion Cyfrifol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y maent hwy yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, yng Nghofnodion y Swyddogion Cyfrifol a gyhoeddwyd gan y Cynulliad

Hyd eithaf fy ngwybodaeth ac fy nghred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a osodwyd allan yn fy llythyr penodi yn gywir fel Swyddog Cyfrifol.

Dyddiad: ...................... 2006     ........................................................... Prif Weithredwr

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU CYFARWYDDWYR MEWN PERTHYNAS Â'R CYFRIFON

O dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 mae gofyn i'r cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo fod y cyfrifon hyn yn rhoi golwg wir a theg o'r sefyllfa sydd ohoni yn yr Ymddiriedolaeth ac o incwm a gwariant yr Ymddiriedolaeth am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr

- ddefnyddio'n gyson bolisiau cyfrifon a sefydlwyd gan y Cynulliad gyda chymeradwyaeth y Trysorlys;

- gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sydd yn rhesymol a gofalus;

- datgan os yw'r safonau cyfrifon priodol wedi cael eu dilyn, o ganlyniad i unrhyw ymadawiadau materol a ddatgelwyd neu a eglurwyd yn y cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio gyda'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifon cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth ac i'w galluogi hwy i sicrhau fod y cyfrifon yn cydymffurfio gyda'r gofynion a amlinellir yn y cyfarwyddyd a grybwyllir uchod gan y Cynulliad

**Dan Orchymyn y Bwrdd**

**Arwyddwyd:**

Dyddiad: ...................... 2006 Cadeirydd: ....................................................

Dyddiad: ...................... 2006 Prif Weithredwr: ...........................................…

Dyddiad: ...................... 2006 Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol: ..................…

**Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru 2005-2006**

**Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau a 2 i 34 o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisïau cyfrifyddu fel y nodir ar dudalennau 6 i 11. Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r rhan yna o'r adroddiad taliadau sydd angen ei archwilio.

**Priod gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr**

Fel y disgrifiwyd ar dudalennau 16 i 17 mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Adran 98(2) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi Rhagair/cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud a rhoddaf ystyriaeth i'r safonau a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn i chi ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol a'r rhan yna o'r adroddiad taliadau sydd angen ei archwilio wedi eu paratoi yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr sylweddol, wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad, neu os yw'r gwybodaeth a benodwyd gan awdurdodau perthnasol ynghylch taliadau a thrafodion eraill heb eu datgelu.

Nid wyf wedi gallu darllen y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyried p'un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig gan nad oedd ar gael ar adeg fy archwiliad.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalennau 1 i 15 yn adlewyrchu cydymffurfiad yr Ymddiriedolaeth ag arweiniad y Trysorlys a'r Cynulliad ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol ac adroddaf os nad yw'n cydymffurfio, neu os yw'n gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn cwmpasu pob risg a rheolaeth. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith roi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol yr Ymddiriedolaeth na'i gweithdrefnau risg a rheoli.

**Sail y farn archwilio**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon) a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol a'r rhan yna o'r adroddiad taliadau sydd angen ei archwilio. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau o bwys a wneir gan y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Ymddiriedolaeth, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd, yn fy marn i, yn angenrheidiol i roi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol a'r rhan yna o'r adroddiad taliadau sydd angen ei archwilio yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol a'r rhan yna o'r adroddiad taliadau sydd angen ei archwilio.

**Barn**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o faterion Ymddiriedolaeth GIG XYZ ar 31 Mawrth 2006 a'i gwarged/diffyg, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben, ac fe'u paratowyd yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;
- mae'r datganiadau ariannol a'r rhan yna o'r adroddiad taliadau sydd angen ei archwilio wedi eu paratoi yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru; ac
- ym mhob ystyr sylweddol mae'r gwariant a'r incwm wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

| | |
|---|---|
| Jeremy Colman | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Archwilydd Cyffredinol Cymru | 2-4 Park Grove |
| 3 Gorffennaf 2006 | Caerdydd CF10 3PA |

## DEDDF GWASANAETH IECHYD GWLADOL 1977
## YMDDIRIEDOLAETHAU'R GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU)
## CYFARWYDDIADAU'R CYFRIFON

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn rhinwedd Adran 98(2) o Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, drwy hyn yn rhoi'r cyfarwyddiadau canlynol:

1. Yn y cyfarwyddiadau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn gofyn yn wahanol:
mae "y ddeddf" yn golygu Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977;
mae'r "Ymddiriedolaeth" yn golygu pob un Ymddiriedolaeth GIG.

**FFURF Y CYFRIFON**

2. Bydd y cyfrifon sy'n ofynnol gan Adran 98(2) y Ddeddf i'w paratoi gan yr Ymddiriedolaeth o ran y flwyddyn ariannol yn diweddu 31 Mawrth 1997 a blynyddoedd dilynol fel a osodir yn y paragraffau canlynol a Rhestrau

**CYFRIFON YR YMDDIRIEDOLAETH**

3. Bydd y cyfrifon o ran y cronfeydd priodoladwy i berfformiad swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth yn cynnwys:
a. rhagair;
b. cyfrif incwm a gwariant;
c. mantolen;
d. datganiad llif arian;
e. datganiad o gyfanswm enillion a cholledion cydnabyddedig, a
f. nodiadau o'r fath a allai fod yn angenrheidiol ar gyfer y dibenion y cyfeirir atynt ym mharagraff 4 isod

4. Bydd y cyfrifon yn rhoi golwg wir a theg o'r incwm a'r gwariant a'r llif arian am y flwyddyn, a'r sefyllfa fel ag ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Yn amodol ar y gofyniad blaenorol bydd y cyfrifon hefyd, heb gyfyngu ar y wybodaeth a roir ac fel a ddisgrifir yn y Rhestr, yn ateb:

a. gofynion cyfrifo a datgelu'r Ddeddf Cwmniau. Ni fydd yr eithriadau datgelu a ganiateir gan y Ddeddf Cwmniau'n gymwys oni bai eu bod wedi eu hawdurdodi'n benodol gan y Cynulliad gyda chymeradwyaeth y Trysorlys.

b. arfer gorau cyfrifo masnachol gan gynnwys safonau cyfrifo a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, ac eithrio'r gofyniad a gynhwysir yn FRS 3 ar gyfer cynnwys nodyn sy'n dangos elw a cholledion cost hanesyddol;

c. pob cyfarwyddyd perthnasol a roir yn "Government Accounting" ac yn "Trading Accounts: A Guide for the Government Departments and Non-Departmental Public Bodies" ac yn "The NHS Trust Manual for Accounts":

d. unrhyw ofynion datgelu a chyfrifo y gallai'r Cynulliad neu'r Trysorlys eu cyhoeddi o bryd i'w gilydd;

i'r graddau y mae'r rhain yn briodol i'r Ymddiriedolaeth ac mewn grym am y cyfnod ariannol y mae'r cyfrifon i gael eu paratoi ar ei gyfer.

5. Paratoir cyfrif incwm a gwariant a mantolen o dan gonfensiwn cost hanesyddol, wedi eu haddasu drwy gynnwys asedau sefydlog ar eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at gostau cyfredol.

Dyddiedig.......................................

Arwyddwyd drwy awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Arwyddwyd.............................................

Aelod o'r Uwch Wasanaeth Sifil
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

## RHESTR

**Rhagair**

1. Bydd y rhagair yn cynnwys datganiad bod y cyfrifon wedi eu paratoi yn unol â'r Cyfarwyddiadau hyn a roddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

2. Bydd y rhagair yn disgrifio cefndir statudol a phrif swyddogaethau'r Ymddiriedolaeth.

**Cyfrif Incwm a Gwariant a Mantolen**

3. Bydd y cyfrif incwm a gwariant a mantolen yn dilyn y fformat penodedig a ddangosir yn Atodiad C i'r llyfryn "Trading Accounts", a addaswyd fel bo'n briodol.

**Datganiad Llif Arian**

4. Dilynir argymhellion Safon Adroddiad Ariannol Rhif 1 (diwygiedig) wrth baratoi'r datganiad llif arian

**Nodiadau i'r Cyfrif**

5. Bydd y nodiadau i'r cyfrif, inter alia, yn cynnwys manylion y polisiau cyfrifo a fabwysiadwyd.

6. Gwneir nodiadau sy'n rhoi rhagor o esboniadau o ffigyrau yn y cyfrif lle ystyrir bod hynny'n briodol ar gyfer deall y cyfrif yn iawn.

7. Bydd Prif Weithredwr a Chadeirydd yr Ymddiriedolaeth yn arwyddo ac yn dyddio'r cyfrif.

8. Atgynhyrchir cyfarwyddyd y cyfrifon fel atodiad i'r cyfrif.